

WREXHAM COUNTY BOROUGH COUNCIL

MEMBER ANNUAL REPORT

This is the report by the Councillor below regarding their key activities over the municipal year ending March 2018. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

Completion instructions

Councillors are free to include as much or as little information as they wish in each section, however, the report is to be kept to a 2 page (maximum) format.

Councillor: Andrew Atkinson

Party: Ceidwadwyr

Ward: Gresffordd

Section 1: Role and Responsibilities:

I sit on the following Committees (attendance figures supplied by WCBC):

Pwyllgor Craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddiad.
Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol.
Pwyllgor Cynllunio.
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
Bwrdd Safonau.
Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau.
Rwy'n Aelod Arweiniol dros Hamdden Ieuenctid a Gwrth-dlodi ar Fwrdd Gweithredol y Cyngor bellach.

I sit on the following external Committees (attendance figures supplied by Councillor):

Cyngor Cymuned Gresffordd (Cynghorydd)
Ysgol yr Holl Saint Gresffordd (Llywodraethwr)

Section 2: Constituency Activity:

Dyma rai o'r materion lleol rwyf wedi bod yn gweithio arnynt fel eich cynghorydd. -

Meddygfa Teulu Alun – Rwyf wedi bod yn arwain yr ymgyrch yn lleol i roi gwybod i breswylwyr am newidiadau arfaethedig i'n meddygfa meddygon teulu gan y partneriaid a gweithio i'w newid. Rwyf wedi gweithio gyda'r Cyng Gilmartin ar hyn. Gwnaethom gynnal cyfarfod cyhoeddus ac rydym wedi ysgrifennu at bob preswylwr.

Safle ar y Gornel - Rwyf wedi gofyn am ragor o gamau gorfodi cynllunio ond credir y bydd cais cynllunio ar gyfer y tir yn cael ei gyflwyno. Rwy'n parhau i wneud popeth a allaf i fynd i'r afael â'r mater hirsefydlog hwn.

Parc y Glowyr – Mae cynlluniau cyffrous i greu Canolfan Ragoriaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar y safle a buddsoddi'n sylweddol yno. Cefais gyfarfod hir i drafod pryderon traffig a materion eraill mae angen i gynllunwyr eu hystyried a mynychais gyfarfod y pwyllgor cynllunio i ofyn am liniaru priodol ar gyfer y pentref.

Gresford News – Rwy'n rhedeg tudalen Facebook ar gyfer y pentref i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr am fy ngwaith, hyrwyddo gweithgareddau cymunedol, digwyddiadau, clybiau, busnesau a mwy.

Ymgyngoriad CDLI a safle Sipsiwn a Theithwyr arfaethedig ar gyfer Llai – Rwyf wedi gweithio i roi gwybod i breswylwyr sut i ymateb i'r ymgyngoriad oherwydd bu pryder am y mater hwn, yn ogystal â hyrwyddo'r cyfarfod cyhoeddus ym mhentref cyfagos Llai, a threfnu bod y pennaeth cynllunio yn bresennol.

Llinell Zip – Mae prosiect cyffrous ar gyfer llinell zip yn cael ei drafod ar gyfer pen y domen rwbel ym Mhandy (mae'r tir yn ward Gresffordd). Dim ond cysyniad yw hwn ar hyn o bryd gan gwmni profiadol sy'n dal i chwilio am gyllid ac nid ydynt wedi cyflwyno cais cynllunio. Rwyf wedi cael nifer o gyfarfodydd am hyn ac wedi hyrwyddo'r cyfarfod cyhoeddus, ei fynychu a siarad ynddo.

Llifogydd Clappers Lane – Mae'r sefyllfa llifogydd ar Clappers Lane yn annerbyniol pan mae'n bwrw glaw. Rwyf wedi

bod yn codi hyn ar y lefelau uchaf yn y cyngor ond rwy'n dal i deimlo rhwystredigaeth nad yw'n cael ei gyfrif fel 'blaenoriaeth' o hyd. Mae'n amlwg yn sefyllfa beryglus ac mae angen datrys yr ardal hon ac ardaloedd eraill yn y pentref sy'n dueddol o gael llifogydd. Byddaf i a'r Cyngor Cymuned yn parhau i ddilyn trywydd hyn.

Tipio anghyfreithlon – Diolch i help preswylwr lleol, roeddem wedi gallu adnabod perchennog gwastraff a gafodd ei dipio'n anghyfreithlon ar Springfield Lane. Roedd hyn yn golygu ei bod wedi'i glirio tra roedd y tîm gorfodi yn ymchwilio. Llwyddais i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn a byddaf yn parhau i roi gwybod amdano a mynd i'r afael ag ef yn y ward.

Pwyllgor Cynllunio – Mynychais gyfarfod o'r pwyllgor i siarad am gais a sicrhodd £28,000 i'n hysgol a £12,000 i'n Parc fel amodau cynllunio.

Goleuadau Stryd – Rwy'n rhoi gwybod yn rheolaidd am oleuadau stryd diffygiol sydd angen eu trwsio. Rhowch wybod i mi os ydych yn gwybod am rai.

Camera Cyflymder Cymunedol – Rwyf wedi sefydlu cynllun Gwyllo Cyflymder Cymunedol ar gyfer y pentref a fydd yn rhedeg yn iawn yn yr hydref.

Llywodraethwr Ysgol yr Holl Saint – Rwy'n llywodraethwr ysgol ac rwy'n gwneud popeth a allaf i gefnogi'r ysgol.

Virgin Media a Gwaith Ffordd – Rwyf wedi gweithio i gynorthwyo busnesau a phreswylwr tra mae Gwaith Ffordd yn mynd rhagddo, rwyf wedi cysylltu â chontractwr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwr.

Glanhau Arwyddion – Rwy'n gwneud nifer o dasgau fy hun yn y pentref, fel glanhau arwyddion, glanhau arosfannau bws, chwynnu, casglu sbwriel a mwy.

Graeanu – Yn ystod y gaeaf caled, gwnes geisiadau i raeau'r holl ardaloedd roedd preswylwr wedi gofyn i mi amdanynt gan gynnwys rhai strydoedd ochr a ffyrdd pengaead a oedd yn rhewllyd i fynd i mewn ac allan ohonynt, yn ogystal â gofyn am ragor o raeau a mesurau diogelwch ar y ffyrdd.

Gwleidyddiaeth a Pheint – Rwy'n cynnal nosweithiau cymorthfeydd rheolaidd gyda'r Cyng Gilmartin mewn tafarndai lleol i drafod materion gyda phreswylwr lleol.

Camau Gorfodi Baw Cŵn - Yn ogystal â gofyn am gamau gorfodi gan y cyngor, rwy'n mynd allan yn rheolaidd yn gynnar yn y boreau a hwyr gyda'r nos gymaint â gallaf. Pan fyddaf allan fel 'Warden Cŵn Cymunedol', rwy'n siarad gyda phobl sy'n mynd â'u cŵn am dro a gofyn iddynt roi gwybod i mi'n gyfrinachol am fanylion unrhyw un nad ydynt yn glanhau ar ôl eu cŵn fel bod modd i mi fod yn y lle cywir ar yr adeg gywir i'w dal. Rwyf wedi prynu teclynau dosbarthu bagiau baw cŵn, sy'n cael ei clymu wrth bolion lampau yn lleol (dim arian cyhoeddus, talwyd yn bersonol), ac rwyf wedi gwneud cais i'r Cyngor Cymuned ystyried gosod rhagor o finiau i helpu i fynd i'r afael â'r rhai sy'n glanhau ar ôl eu cŵn ac yna'n cael gwared â'r bag mewn modd anghyfrifol!

Ffyrdd – Rwy'n parhau i gofnodi pob ceudwll a rhannau o ffordd sydd angen eu hailwynebu. Rwyf mewn cyswllt rheolaidd am y materion hyn, gan ofyn am waith atgyweirio cywir, parhaol, a byddaf yn parhau i wneud hyn.

Casglu Sbwriel – Rwyf wedi trefnu nifer o ddiwyddiadau casglu sbwriel a byddaf yn parhau i wneud hyn.

Parcio Oddi ar y Ffordd – Rwy'n gobeithio lliniaru rhai o'r problemau parcio yn Narrow Lane a Newtown gyda manau parcio oddi ar y ffordd a delir o'm cyllideb amgylcheddol aelod lleol.

Yn y Gymuned – Rwy'n ymweld yn rheolaidd â sefydliadau lleol gan gynnwys Sefydliad y Merched Gresffordd a Chlwb Ymdeoliad Gresffordd yn ogystal â mynychu cynifer o ddiwyddiadau yn y pentref ag a allaf.

Offer chwarae ar gyfer plant anabl – Rwy'n hapus iawn bod y Cyngor Cymuned wedi cytuno i brynu offer chwarae i ddiwallu anghenion plant lleol ag anableddau. Cyflwynais hyn gyda chynghorydd cymuned ar ôl trafodaethau gyda mam lleol.

Rhestr tasgau – Gall fod yn hynod rhwystredig pa mor hir y gall gymryd i gyflawni rhai tasgau ond ni fyddaf yn rhoi'r ffidil yn y to. Rwy'n cadw rhestr o dasgau mae preswylwr wedi cysylltu â mi amdanynt ac rwy'n edrych ar y rhestr bob wythnos. Rwy'n gweithio'n rheolaidd ar waith y ward, p'un ai fydd hynny'n golygu gofyn i weithwyr sgubo strydoedd fynd allan, sicrhau bod y cynwysyddion lori yn cael eu symud o gornel Pant Olwen neu unrhyw beth arall, mae'n tueddu i gymryd amser hir ond rwy'n dal ati a sicrhau ei fod yn cael ei wneud.

Biniau yn Newtown – Codais fater deunydd ailgylchu nad yw'n cael ei gasglu yn Newtown mewn cyfarfod y pwyllgor craffu yn Neuadd y Dref ac rwyf wedi codi hyn ar y lefel uchaf gyda swyddogion a'r aelod arweiniol. Rwy'n parhau i fynd i'r afael â'r mater hwn oherwydd mae fel pe bai mater parhaus.

Ymweliadau Siôn Corn – Roedd ymweliadau Siôn Corn ddydd Gwener 15 Rhagfyr yn llwyddiant mawr, gwnaethom ymweld â llawer o blant a chodi arian i Grwpiau Chwarae Gresffordd a Marford. Diolch yn fawr i Marc Williams, gyrrwr fy sled, a Rachel fy nghorrach! Diolch eto i Spar Gresffordd, Cyng Russ Gilmartin, Cyng Hugh Jones a HSA All Saints am ddarparu fferins. Cefais amser gwych fel Siôn Corn, ac rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf!

Ffair Nadolig Gresffordd – Rwyf wedi gweithio gyda chynghorydd cymuned a gwirfoddolwr lleol i drefnu'r digwyddiad hwn lle treuliais y diwrnod fel Siôn Corn. Buom hefyd yn gweithio gyda phreswylwr lleol ar nosweithiau bingo i godi arian

i'n grwpiau chwarae lleol.

Codiad cyflog i gynghorwyr wedi'i wrthod – Rwyf wedi gwrthod y ddau godiad cyflog fel a addawyd yn yr etholiad. Ysgrifennais at y Prif Swyddog Cyllid i wrthod y codiadau cyflog. Mae'r cynnydd yn cael ei gynnig gan gorff annibynnol a'r cynghorwyr sydd i benderfynu beth sydd orau. Rwyf hefyd yn talu am fy iPad Cyngor fy hun, nid wyf yn hawlio treuliau ac ni dderbyniais docyn parcio car.

Plismona – Rwy'n gweithio'n agos gyda'n Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) lleol ar faterion sy'n ymwneud â throedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y pentref.

Parcio amhriodol a pheryglus - Rwy'n gweithio gyda swyddogion y cyngor i fynd i'r afael â'r materion hyn, gofyn am orfodaeth ac rwyf wedi sicrhau rhagor o linellau melyn dwbl mewn ardaloedd peryglus lle mae eu hangen yn dilyn ceisiadau gan breswylwyr.

Tai cyngor – Rwy'n mynd am dro yn rheolaidd o amgylch ardal Newtown a Narrow Lane gydag uwch swyddog tai i gofnodi materion i'w trwsio. Rwy'n gofyn am waith fel cael gwared ar dipio anghyfreithlon, twtio'r ardal werdd fechan sydd wedi gordyfu yn Parsonage Close, gosod cwteri a byrddau ffasgia newydd ar gyfer fflatiau yn Parsonage Close, paentio silffoedd ffenestri carreg yn nherasau Newtown a gwagio a thrwsio cwteri, cynnal gwiriadau ar ymddygiad contractwyr yn Newtown, gosod ffensys newydd, sicrhau bod biniau Newtown yn cael eu gwagio tra mae gwaith yn mynd rhagddo a llawer mwy. Roedd rhai tai wedi'u gadael mewn cyflwr ofnadwy ar ôl gwaith diweddar ac rwyf wedi treulio llawer o amser yn gofyn i contractwyr ddod yn ôl allan at breswylwyr i gywiro pethau. Yn aml byddaf yn ceisio gwneud pethau fy hun os na all y cyngor helpu, fel y tro i mi ofyn am help i dynnu coeden i lawr yng ngardd preswylwr hyn.

Materion lleol – Rwy'n mynd am dro yn rheolaidd o amgylch y ward i restru materion a'u cofnodi ar gyfer eu trwsio, mae'n cymryd amser rhwystredig o hir i gyflawni pethau weithiau, ond rhowch wybod i mi amdanynt oherwydd gallaf ddal i swnian nes iddynt gael eu gwneud!

Diogelwch ar y Ffyrdd – Mae cynllun yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â llawer o faterion Diogelwch ar y Ffyrdd yn y pentref, yn enwedig o amgylch yr ysgol. Rwyf hefyd yn gweithio ar groesfan yn y goleuadau ger y Plough.

Section 3: Other Activities and Issues:

Dan Gweithgareddau Etholaeth.

Section 4: Learning & Development Undertaken:

Rwyf wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddiant aelodau a'r mwyaf diweddar oedd Iechyd Meddwl yn y Gweithle.

Section 5: Other Activities and Issues:

I gyd dan Gweithgareddau Etholaeth.

Signature of Councillor : Andrew Atkinson

Date: 13 Gorffennaf 2018